



Dyddiad cyhoeddi: 16 Mawrth 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth. Ystyriwyd eich cais yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am y wybodaeth ganlynol:

- Beth yw gwerth contract TIL gyda Trafnidiaeth Cymru ac am ba hyd?
- A yw TIL, neu ei staff sy'n gweithio yng ngorsafoddd Trafnidiaeth Cymru, yn cael comisiwn neu ad-daliad ariannol ychwanegol (bonysau) mewn perthynas â nifer y bobl sy'n cael eu dal am afreoleidd-dra tocynnau a/neu refeniw o ddirwyon (setliadau gweinyddol) a gafwyd gan bobl a riportwyd gan staff TIL am afreoleidd-dra tocynnau? Os felly, beth yw lefelau'r comisiwn neu'r bonws a delir i naill ai TIL neu aelodau unigol o staff?
- Oes gan TIL fel cwmni dargedau y cytunwyd arnynt gyda Trafnidiaeth Cymru ar gyfer nifer y bobl a gaiff eu riportio am afreoleidd-dra tocynnau? Os felly, beth yw'r targedau hynny (o ran nifer y bobl fesul cyfnod amser)?
- Oes gan TIL fel cwmni dargedau y cytunwyd arnynt gyda Trafnidiaeth Cymru ar gyfer refeniw ymlaen o ddirwyon (setliad gweinyddol) a gafwyd gan bobl a riportwyd gan staff TIL am afreoleidd-dra tocynnau? Os oes, beth yw'r targedau hynny (mewn punnoedd fesul cyfnod amser)?
- A yw staff TIL sy'n gweithio mewn gorsafoddd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio tuag at dargedau ar gyfer nifer y bobl maen nhw'n eu riportio am afreoleidd-dra tocynnau? Os felly, beth yw'r targedau hynny (o ran nifer y bobl fesul cyfnod amser)?
- Yw staff TIL sy'n gweithio mewn gorsafoddd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio tuag at dargedau ar gyfer refeniw ymlaen o ddirwyon (setliadau gweinyddol) a gafwyd gan bobl maen nhw'n eu riportio am afreoleidd-dra tocynnau? Os oes, beth yw'r targedau hynny (mewn punnoedd fesul cyfnod amser)?
- Os oes targedau ar gyfer unrhyw un o'r pedwar senario a ddisgrifir uchod, ydy'r targedau'n amrywio drwy'r wythnos neu ar draws y flwyddyn galendr? Er enghraifft, ydy'r targedau'n uwch ar rai diwrnodau o'r wythnos neu ar adegau penodol o'r flwyddyn?
- Os oes targedau ar gyfer unrhyw un o'r pedair senario a ddisgrifir uchod, sut mae'r targedau hyn yn gysylltiedig â chomisiynau neu fonysau ar gyfer TIL neu ei staff, os yn berthnasol?
- Os oedd Trafnidiaeth Cymru yn caffael gwasanaethau TIL ar gyfer TrC, beth oedd y meini prawf penderfynu pan ddewisodd Trafnidiaeth Cymru gyflenwr ar gyfer y gwasanaethau hyn a pha ddiwydrwydd dyladwy a wnaed ar arferion TIL a'i staff? Os oedd hwn yn gontract a etifeddwyd gan Trenau Arriva Cymru (ATW), pa ddiwydrwydd dyladwy a wnaed gan Trafnidiaeth Cymru ar y contract hwn, ei amodau a thelerau ac unrhyw dargedau'n ymwneud â nifer y teithwyr a riportwyd am afreoleidd-dra tocynnau a refeniw o ddirwyon?



- A yw incwm o ddirwyon (setliad gweinyddol) gan TIL i deithwyr a gafodd eu riportio am afreoleidd-dra tocynnau o orsafoedd Trafnidiaeth Cymru yn rhan o gynlluniau a/neu strategaeth ariannol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod? Os felly, faint yw'r incwm a ddymunir o'r ffynhonnell hon a thros ba gyfnod o amser?
- Nid yw Trafnidiaeth Cymru yn rhan o'r System Gosbau. Beth yw'r rhesymau dros beidio â chymryd rhan yn y cynllun hwn? Os oedd hwn yn arfer a etifeddwyd gan gwmni Trenau Arriva Cymru, pa ddiwydrwyd dyladwy a gynhaliwyd gan Trafnidiaeth Cymru ar yr arfer hwn?
- Mae gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru wedi'u heithrio o gynllun cosbau Great Western Railway (GWR), a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2019 ar draws rhwydwaith GWR, ac eithrio De Cymru. Pam nad yw gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru ar lwybrau GWR yn dod o dan y cynllun hwn?
- A yw'r cytundeb rhwng Trafnidiaeth Cymru a GWR sy'n rheoli diffyg cyfranogiad TrC yng nghynllun cosbau GWR yn nodi neu'n rhagweld unrhyw fath o iawndal ariannol neu daliad gan TrC i GWR?

Ar ôl adolygu'r cwestiynau hyn, rydym wedi penderfynu bod y wybodaeth hon yn fasnachol sensitif, a bod ei datgelu yn debygol o amharu ar fuddiannau masnachol Transport Investigations Limited a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r eithriadau canlynol i'r hawl mynediad dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) wedi'u cymhwyso:

- S.41 (Torri cyfrinachedd cyfreithadwy) Darparwyd rhywfaint o wybodaeth yn y contractau i Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru o dan rwymedigaeth cyfrinachedd.
- S43(1) ac S43(2) (Niwed i fuddiannau masnachol). Byddai gwybodaeth yn debygol o effeithio ar fantais gystadleuol Transport Investigations Limited.

Mae'r defnydd o'r eithriad hwn yn amodol ar asesiad o fuddiant y cyhoedd mewn perthynas â datgelu'r wybodaeth dan sylw. Yn yr achos hwn, mae ffactorau o blaid datgelu, megis budd cyffredinol y cyhoedd o ran tryloywder a bod yn agored, yn cael eu gwrthbwysu gan y niwed posibl i weithrediad effeithiol unrhyw broses ymgeisio gystadleuol. Felly, byddai datgelu'n debygol o amharu ar allu Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i gael y gwerth gorau o'i brosesau caffael. Nifer cyfyngedig o gwmnïau sy'n gallu gwneud cais am y math hwn o gontract ac mae Transport Investigations Limited yn debygol o gystadlu am gontractau tebyg yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, rydym o'r farn mai budd y cyhoedd yw cael y gwerth gorau o'r farchnad, gan barchu rhwymedigaethau datganedig a goblygedig cyfrinachedd sy'n cael eu creu drwy'r broses gaffael.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod yr angen i awdurdodau cyhoeddus fod yn agored a thryloyw, ond yn yr achos hwn gan y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio gallu Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i gael y gwerth gorau o'i phroses gaffael a gallu Transport Investigation Limited i gystadlu â chwmnïau eraill, ystyrir bod budd y cyhoedd yn ffafrio defnyddio'r eithriad.



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru